Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cas-gwent

Welsh Street
Cas-gwent
Sir Fynwy
NP16 5LR

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cas-gwent

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cas-gwent |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Fynwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 799 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 663 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 135 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 11.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 16.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/03/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/03/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Cas-gwent yn ymdrechu i ysbrydoli dysgu ‘i bawb, am oes’ mewn amgylchedd cynhwysol a gofalgar lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les pob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel ac yn falch o fod yn aelod o gymuned yr ysgol. Mae llais y disgyblion yn gryfder nodedig, ac yn ffactor dylanwadol yn yr ymdeimlad hwn o berthyn.

Mae gwerthoedd craidd yr ysgol, sef bod yn gadarnhaol, uchelgais, chwilfrydedd, tegwch a dyfalbarhad, yn sail i bob agwedd ar ei gwaith. Caiff anghenion cymdeithasol ac emosiynol pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus, eu diwallu’n dda ac mae hyn yn eu galluogi i ffynnu.

Mewn llawer o wersi, mae perthnasoedd parchus a phwrpasol rhwng athrawon a disgyblion, ynghyd ag addysgu o ansawdd da, yn sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd cadarn, o leiaf, wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau. Trwy gydol cyfnodau allweddol 3 a 4, caiff anghenion a diddordebau pob un o’r disgyblion eu diwallu’n dda. Fodd bynnag, mae cwricwlwm y chweched dosbarth yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn parhau i lywio’r ysgol trwy gyfnodau heriol. Mae hyn wedi helpu’r ysgol i wneud cynnydd sylweddol o ran mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, ac yn fwyaf nodedig, presenoldeb a hyrwyddo’r Gymraeg. Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ond nid ydynt bob amser yn gwerthuso effaith yr addysgu ar ddysgu’r disgyblion yn ddigon manwl. Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn parhau i fod mewn diffyg ariannol sylweddol ac mae’n gweithio’n agos gyda’r awdurdod lleol i fynd i’r afael â hyn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Gweithio gyda’r awdurdod lleol i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn

A2 Mireinio prosesau hunanwerthuso fel bod arweinwyr yn canolbwyntio’n gadarn ar effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion ac yn cynllunio’n fanwl gywir ar gyfer gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae Ysgol Cas-gwent yn ymdrechu am ragoriaeth ym mhopeth a wna. Mae perthnasoedd pwrpasol, parchus a chynhyrchiol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd nodedig yn y rhan fwyaf o wersi. Yn ystod gwersi, mae disgyblion yn elwa ar arferion a ddeellir yn dda ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn, o leiaf, o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd hynod gryf. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig lle ceir diffygion mewn addysgu neu pan nad ydynt yn ymgysylltu â'u dysgu'n ddigon da. Mae'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymrwymiad cryf i'r gymuned a chwrteisi at bobl eraill. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn bwrw ymlaen â'u tasgau yn gyflym. Mae llawer ohonynt yn cydweithredu'n dda â'i gilydd yn aeddfed mewn parau a grwpiau bach, er bod ychydig iawn o ddisgyblion yn aros yn oddefgar yn eu gwersi. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn ddysgwyr aeddfed, brwdfrydig ac yn aml yn chwilfrydig.

Mae arweinwyr wedi gweithio'n ofalus gyda holl aelodau cymuned yr ysgol i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer ei Chwricwlwm i Gymru, sef "ysbrydoli dysgu i bawb, am oes", sy'n rhoi disgyblion yn ganolog iddo. Mae wedi'i ddylunio'n ofalus i hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol, sef bod yn gadarnhaol, dyfalbarhad, uchelgais, chwilfrydedd a thegwch. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 4, sy'n cynnig ystod briodol o opsiynau cyffredinol ac ychydig o opsiynau galwedigaethol, yn darparu ar gyfer anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae cwricwlwm chweched dosbarth yr ysgol yn gyfyngedig er ei fod wedi cael ei gryfhau gan bartneriaethau ar-lein mewn ychydig o feysydd pwnc.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol ar gyfer datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) sy'n cael ei chydlynu'n dda. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio o gwmpas senarios bywyd go iawn a themâu yn seiliedig ar destun, sy'n datblygu empathi, hunanhyder a gwydnwch disgyblion yn dda. Mae disgyblion hefyd yn ennill gwerthfawrogiad o degwch ac amrywiaeth, gan gynnwys natur gymhleth cymdeithasau a

hanes a phrofiad cymunedau pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol trwy astudio ystod o destunau am anghyfiawnder cymdeithasol a chymdeithasau amlddiwylliannol.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn dangos medrau cefnogol a phriodol wrth reoli ystafelloedd dosbarth, wedi’u hategu gan ddisgwyliadau uchel ac arferion sefydledig. Maent yn darparu adborth llafar cadarnhaol sy’n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu syniadau a mireinio’u gwaith. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn barchus ac yn bwrpasol mewn gwersi.

Mae llawer o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn cyflwyno gwersi â brwdfrydedd, sy’n helpu cynnal diddordeb a chymhelliant disgyblion. Maent yn defnyddio terminoleg sy’n benodol i bwnc yn gyson ac yn tynnu sylw disgyblion at eirfa allweddol i gefnogi eu dealltwriaeth o gysyniadau pwysig. Mae’r athrawon hyn yn fodelau iaith effeithiol sy’n helpu disgyblion i ddatblygu eu defnydd eu hunain o iaith sy’n briodol i bwnc mewn tasgau llafar ac ysgrifenedig.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno amrywiaeth o dasgau pwrpasol gan ddefnyddio adnoddau difyr sy’n ennyn diddordeb disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu’n frwdfrydig ac yn gweithio’n dda gyda’u cyfoedion.

Yn y gwersi prin lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf, mae gan athrawon ddisgwyliadau eithriadol o uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae’r athrawon hyn:

- yn cynllunio tasgau diddorol a heriol sy’n ysbrydoli disgyblion i feddwl yn ddwys a chymhwyso’u gwybodaeth a’u medrau mewn sefyllfaoedd newydd neu fwy heriol
- yn defnyddio holi treiddgar i ddyfnhau meddwl disgyblion
- yn gwirio dealltwriaeth disgyblion yn ofalus ac yn addasu eu haddysgu yn ôl yr angen i gefnogi dysgu
- yn rhoi adborth llafar manwl gywir ac effeithiol i ddisgyblion sy’n eu symud ymlaen yn eu dysgu

Yn y gwersi lle nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, mae hyn yn aml oherwydd:

- nad oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni
- bod athrawon yn cynllunio tasgau sy’n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach nag ymestyn eu dysgu
- bod athrawon yn rhoi gormod o gyfarwyddyd fel bod llai o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth

Mae’r ysgol yn mireinio’i hymagwedd at asesu, sy’n helpu athrawon i ennill dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd disgyblion. Mae lleiafrif o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig penodol sy’n helpu disgyblion i ddeall sut i wella’u gwaith. Fodd bynnag, mae gormod o

amrywiad o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad o ran ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig ar gyfer disgyblion.

Ceir cyfleoedd gwerthfawr a chymesur i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn mireinio'i hymagwedd at asesu ac olrhain medrau, er bod hi'n ddyddiau cynnar o hyd o ran eu gwerthuso. Mae'r gwaith ar ddatblygu diwylliant darllen, a'r ffocws ar eirfa, yn cael effaith glir a chadarnhaol ar fedrau siarad ac ysgrifennu disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn addas i gyfraniadau disgyblion eraill. Mae datblygiadau o ran addysgu geirfa cyn gweithgaredd yn cefnogi defnydd disgyblion o ystod eang o dermau sy'n benodol i bwnc ac ymwybyddiaeth ehangach o iaith yn eu cyfraniadau ar lafar. Dros gyfnod, mae hyn yn cefnogi eu darllen ac yn magu eu hyder a'u hyfedredd i ddatblygu eu hysgrifennu. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn huawdl iawn wrth ymateb i gwestiynau athrawon ac yn cynnig eu meddyliau ar destunau fel Sofieteiddio yn Nwyrain Ewrop a chyflwyno cymeriadau mewn testunau fel 'Animal Farm' a 'A Streetcar Named Desire'. Nid yw ymatebion ychydig o ddisgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol oherwydd nad ydynt bob amser yn cynnal gwrando â ffocws, neu oherwydd diffygion yn holi'r athrawon.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio strategaethau adfer gwybodaeth yn hyderus yn Saesneg, yn Gymraeg ac yn Sbaeneg. Caiff datblygiad eu grym geiriau a'u gallu i ddarllen â dealltwriaeth dda eu hymestyn gan dasgau ymchwil cyn testun mewn gwyddoniaeth ac addysgu geirfa cyn gweithgaredd mewn gwahanol bynciau. Mae testunau a thasgau a  ddewiswyd yn dda yn cefnogi datblygiad medrau darllen mwy datblygedig disgyblion mewn cyd-destunau sy'n addas o heriol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ymatebion craff a huawdl disgyblion i farddoniaeth, fel eu myfyrdodau ar y ddynoliaeth ar ôl darllen 'War Photographer' gan Duffy a chyfosod ffynonellau hanesyddol i lunio casgliadau am gyflwyno'r 'hoedennod' ('flappers') yn UDA yn y 1920au.

At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio geirfa sy'n addas o eang yn eu hysgrifennu. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio geirfa ehangach, sy'n aml yn fwy soffistigedig, sy'n cyfoethogi eu hysgrifennu ac yn llwyddo i ennyn diddordeb y darllenydd p'un a yw yn eu gwaith naratif neu wrth drafod digwyddiadau fel Cwymp Wall Street. Mae mwyafrif y disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sy'n dechnegol gadarn ac wedi'i strwythuro'n addas. Mae lleiafrif ohonynt yn parhau i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu. Mae hyn yn cyfyngu ar gydlyniad ac effaith eu hysgrifennu. Ar hyn o bryd, nid yw disgyblion yn elwa ar unrhyw ddisgwyliad clir a chyson i brawfddarllen neu wella'u gwaith cyn iddynt ei gyflwyno i'r athro.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o fedrau rhif sylfaenol. Maent yn defnyddio pedair rheol rhif yn dda, er enghraifft wrth gyfrifo canrannau a chyfartaledd

cymedrig. Mae mwyafrif ohonynt hefyd yn defnyddio'r medrau hyn yn briodol wrth wneud cyfrifiadau yn y pen ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o siâp a mesurau. Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhifedd cryf ac yn defnyddio'u dealltwriaeth ddyfnach i ddatrys problemau mwy cymhleth ac esbonio a chyfiawnhau eu meddwl. Er bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ymarfer eu medrau rhifedd mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm, nid ydynt bob amser yn cael cyfleoedd i gymhwyso neu ddatblygu'r medrau hyn mewn cyd-destunau digon heriol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn meddu ar fedrau digidol cadarn. Mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu'r medrau hyn yn briodol mewn gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac mewn ychydig o bynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Yn eu gwersi TGCh, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o feddalwedd, er enghraifft wrth ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data. Mewn gwersi celf, mae disgyblion yn archwilio amrywiaeth o fedrau ffotograffiaeth yn llwyddiannus ac yn arbrofi â gwahanol gyfryngau a thechnegau yn ystod y broses fersiwn dyluniad.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a chreadigol yn dda. Mae'r disgyblion hyn yn ystyried safbwyntiau pobl eraill â sensitifrwydd, ac yn cyfiawnhau eu safbwynt eu hunain yn hyderus pan gânt eu sbarduno. Mewn gwersi celf, mae bron pob un o'r disgyblion yn arbrofi â syniadau ac yn cael eu cymell gan dasgau nad oes ganddynt ganlyniad wedi'i bennu ymlaen llaw. Er enghraifft, wrth adeiladu model clai yn gysylltiedig â ffurfiau naturiol, maent yn cymhwyso ac addasu eu technegau i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu, ac yn gysurus ag ansicrwydd y canlyniad terfynol.

Nodwedd nodedig yn Ysgol Cas-Gwent yw'r agweddau cadarnhaol at ddysgu y mae disgyblion yn eu dangos wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Mewn gwersi Cymraeg, mae ymarferion adfer ac ailadrodd cyson yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn hyderus i ynganu a defnyddio geirfa a phatrymau brawddeg newydd a heriol heb boeni os byddant yn gwneud camgymeriadau. Gall disgyblion hŷn sgwrsio heb ddibynnu'n ormodol ar ddeunyddiau cymorth ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o amserau neu idiomau i ddatblygu eu hymatebion yn llwyddiannus.

### Ciplun 1 – hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant

Mae'r ysgol yn datblygu ymagwedd fywiog at hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae arweinwyr wedi ymateb i lais y disgybl a llais staff, ac wedi cyflwyno llawer o ymagweddau gwerthfawr i gefnogi'r datblygiad hwn. Mae'r ymagweddau hyn yn cynnwys:

- strategaeth 'Cymraeg yn y coridor' i staff a disgyblion gyfarch ei gilydd o gwmpas yr ysgol
- cynllun pum munud i ddrilio ac ailadrodd brawddegau neu ymadroddion yn Gymraeg yn ystod y cyfnod cofrestru

- teithiau dysgu i gefnogi meysydd dysgu a chryfhau eu defnydd o’r Gymraeg
- cynllunio a gweithio ar y cyd ag ysgolion cynradd partner

Mae’r ‘Gymdeithas Gymraeg’ yn croesawu’r diwylliant Cymreig yn frwdfrydig ac yn trefnu gweithgareddau i ddathlu dyddiadau allweddol yn y calendr Cymreig, er enghraifft bore coffi ar ddiwrnod ‘Shwmae Sumae’. Mae’r ymagweddau hyn yn cefnogi’r ysgol yn dda yn ei huchelgais i gryfhau diddordeb disgyblion yn y Gymraeg a’i diwylliant, a’u brwdfrydedd drostynt.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Cas-gwent wedi meithrin diwylliant teuluol cryf lle mae cynwysoldeb a lles yn ganolog i bopeth a wna. Mae wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle mae disgyblion yn ffynnu ac yn datblygu yn unol â gwerthoedd craidd yr ysgol, sef bod yn gadarnhaol, uchelgais, chwilfrydedd, tegwch a dyfalbarhad. Darperir lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion a staff. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion hyder yng ngallu staff i’w cefnogi’n dda, ac mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel yn yr ysgol. Mae disgyblion a staff yn falch o berthyn i gymuned yr ysgol.

Mae gan yr ysgol dîm staff ymroddgar sy’n gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol a gyda diben moesol uchel i feithrin ymddygiad cadarnhaol, gan gynnwys agweddau at ddysgu a derbyn ei gilydd fel unigolion. O ganlyniad i’r ethos cynhwysol hwn, mae disgyblion a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac adlewyrchir agweddau cadarnhaol disgyblion yn eu hymddygiad da mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cymryd ei chyfrifoldeb i gefnogi lles pob disgybl yn ddifrifol iawn, gan gynnwys y disgyblion hynny sy’n fwy bregus. Er enghraifft, mae wedi sefydlu mynegai bregusrwydd i sicrhau bod pob un o’r staff yn deall amgylchiadau penodol pob disgybl ac yn gallu cynnig y gefnogaeth a’r ymyrraeth gywir. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwybod ble i ddod o hyd i’r gefnogaeth briodol ar gyfer eu lles ac unrhyw faterion sy’n eu poeni. Mae timau bugeiliol, staff ADY ac arweinwyr yn cefnogi’r disgyblion hyn yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae’r ysgol yn darparu gofod diogel dynodedig (‘Yr Hwb’) lle mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gymorth ac ymyriadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn manteisio ar yr ystafell synhwyraidd sy’n addasu i’w hemosiynau. Mae’r ysgol yn cynnig dewis o gyfleoedd a chlybiau allgyrsiol poblogaidd iawn, fel pêl-foli, rownderi, gwyddbwyll, codio a chlybiau gwaith cartref. Mae’r gweithgareddau hyn yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol ac yn helpu magu eu hyder.

Mae’r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o’r hyn sy’n gywir ac yn anghywir, ac archwilio’u credoau ysbrydol a moesegol. Mae’r cymorth ar gyfer anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol ac iechyd meddwl a lles disgyblion yn helaeth ac yn bwrpasol, lle bo modd. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn rhaglen

diffeithwch awyr agored i gefnogi eu hiechyd meddwl, yn cefnogi wythnos Pride, ac yn dysgu sut i ddatblygu ffordd iach o fyw trwy'r cwricwlwm iechyd a lles. Mae'r ysgol yn rhoi amrywiaeth o fentrau ar waith i hyrwyddo cynwysoldeb a dathlu amrywiaeth. Mae'r mentrau hyn yn ennyn diddordeb disgyblion mewn sgyrsiau pwysig ac yn meithrin diwylliant o gwrteisi a goddefgarwch. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg, ac yn eu tro yn arddangos lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch am gymuned yr ysgol ac ymwelwyr. At ei gilydd, mae'r ysgol yn delio'n brydlon ac yn effeithiol â'r achosion honedig prin iawn o fwlio. Mae'n cadw cofnodion manwl ac yn defnyddio staff yr ysgol a phartneriaid allanol, ac yn rhoi ymagweddau adferol ar waith yn dda i gefnogi'r disgyblion dan sylw.

Mae cymorth ar gyfer lles disgyblion ag ADY yn amrywiol ac effeithiol. Mae'r drefn ar gyfer olrhain cynnydd mewn meysydd academaidd a lles ar gyfer y disgyblion hyn yn gadarn a chynhwysfawr, gydag amrywiaeth o ymyriadau sy'n cynnwys meini prawf mynediad ac ymadael addas. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. At ei gilydd, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn cael arweiniad addas i wneud dewisiadau synhwyrol ar gyfer eu cam dysgu nesaf.

### Ciplun 2 – arweinyddiaeth disgyblion

Mae arweinyddiaeth disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i bob un o'r disgyblion, sy'n cynnwys grwpiau arweinyddiaeth disgyblion sy'n cyd-fynd â gwerthoedd craidd yr ysgol, arweinwyr chwaraeon a chynrychiolwyr dosbarth. Trwy'r rhain, rhoddir cyfleoedd i bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, ddatblygu eu medrau arwain. Mae gan y grwpiau hyn statws uchel o fewn cymuned yr ysgol, gan ddylanwadu ar benderfyniadau a mentrau a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ymhlith disgyblion.

Trwy weithio'n agos â'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r pennaeth, mae'r grwpiau hyn yn ffurfio digonedd o newidiadau ar draws yr ysgol gyfan, fel y fenter bwyta'n iach, gwaith elusennol, a chyngor pwrpasol ar yrfaoedd. Mae gan bob grŵp arweinyddiaeth gylch gwaith a llinellau cyfathrebu clir ar draws yr ysgol, sy'n cynrychioli eu cyfoedion yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae gan draean o fyfyrwyr rolau arwain ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod ganddynt lais ym mywyd yr ysgol a bod eu barn a'u teimladau'n cael eu parchu.

Mae'r ysgol yn defnyddio data arolwg allanol a llais y disgybl yn dda i nodi meysydd pryder allweddol i ddisgyblion. Mae staff yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid allanol i roi ystod o strategaethau ar waith i helpu disgyblion i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys bod yn ddiogel ar-lein, yn ddiogel rhag camfanteisio, a gwneud dewisiadau am ffyrdd diogel o fyw. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos

gyda phartneriaid fel Cymdeithas Chwilio ac Achub Ardal Hafren (SARA) i addysgu disgyblion am ddiogelwch dŵr cyn misoedd yr haf a gyda thîm cyswllt yr heddlu i drafod ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.

Mae trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn glir a chadarn. Mae'r ysgol yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn brydlon ac yn ddiwyd ac yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol i asiantaethau allanol. Mae'n dilyn gweithdrefnau priodol i sicrhau addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â disgyblion ac yn cynnal cofnod cyfredol o'r gwiriadau hyn. Mae pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn cael hyfforddiant rheolaidd ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac maent yn glir ynghylch trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion. Yn ychwanegol, mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer diogeledd digidol disgyblion a staff.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb yn dda. Mae arweinwyr yn monitro ac olrhain presenoldeb gan ddefnyddio systemau cadarn, ac maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol ac ystod o bartneriaid i wella presenoldeb disgyblion. Caiff disgyblion eu cymell gan yr amrywiaeth o gymhellion a gwobrau fel yr 'Uwch Gynghrair Presenoldeb'. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb da ac yn mynychu'r ysgol yn dda. Er bod presenoldeb cyffredinol yn parhau i fod ychydig islaw lefelau cyn y pandemig, y llynedd, bu gwelliant ar gyfradd gyflymach nag a wnaeth yn genedlaethol, yn yr un modd â phresenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chyfanswm yr absenoldebau parhaus.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol ac ymroddgar sy'n fodel rôl cadarnhaol ar gyfer staff a disgyblion. Mae ei weledigaeth glir, sy'n sail i werthoedd ac uchelgais yr ysgol, sef 'Ysbrydoli Dysgu', wedi'i gwau trwy fywyd a gwaith yr ysgol. Cefnogir hyn gan ddiwylliant cadarnhaol o gydweithio, ac mae staff a disgyblion yn teimlo'n falch o fod yn rhan o Ysgol Cas-Gwent.

Mae uwch arweinwyr yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol. Mae rolau a chyfrifoldebau yn glir, ac mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae prosesau rheolaeth llinell yn addas, ac ar y cyfan, mae arweinwyr yn darparu cymorth a her briodol i staff ar bob lefel.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi adolygu eu prosesau hunanwerthuso yn briodol i greu calendr clir o weithgareddau. Ar bob lefel, mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol i sicrhau ansawdd gwaith yr ysgol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi datblygu gweithgareddau gwerthfawr llais y disgybl, dan arweiniad grwpiau arweinyddiaeth disgyblion, sy'n gweithio ochr yn ochr â llywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio â manwl

gywirdeb digonol ar effaith yr addysgu ar ddysgu'r disgyblion. Maent yn dibynnu'n ormodol ar ddadansoddiadau o ddata ac nid ydynt yn edrych ar y cynnydd a wna disgyblion mewn llyfrau a gwersi yn ddigon agos.

Caiff blaenoriaethau ysgol gyfan eu deall yn dda gan staff ac maent yn ffurfio fframwaith buddiol ar gyfer cynllunio gwelliant timau cwricwlwm a lles. Fodd bynnag, mae lleiafrif o flaenoriaethau gwella yn rhy eang, ac o ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn gosod targedau sy'n ddigon manwl.

Mae arweinwyr yn angerddol am sicrhau bod pob un o'r staff yn gallu manteisio'n deg ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwerthuso'i effaith ar gynnydd disgyblion yn ddigon agos. Mae'r ysgol yn mireinio'i phrosesau rheoli perfformiad. Mae amcanion unigol yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau datblygu ysgol gyfan, er nad ydynt yn ddigon strategol ar hyn o bryd.

Mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael ag amryfal flaenoriaethau cenedlaethol, fel gweithredu Cwricwlwm i Gymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, gwella presenoldeb a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r ysgol hefyd wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ymagwedd sefydledig at leihau effeithiau tlodi, gan wneud defnydd priodol o'r grant datblygu disgyblion. Mae'n cefnogi lles a chyrhaeddiad disgyblion o aelwydydd incwm isel trwy ystod helaeth o strategaethau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, presenoldeb a lles y disgyblion hyn.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr hynod ymroddgar i'r ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn darparu her a chymorth buddiol ar gyfer uwch arweinwyr. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldeb i sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb, mae arweinwyr a'r corff llywodraethol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gadarnhau'r cynllun adfer cytûn. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi eu helpu i nodi a sicrhau arbedion pwysig yn eu cyllideb. Er gwaethaf y gwaith buddiol hwn, mae'r ysgol yn parhau i fod â diffyg.

Yn ogystal â blaenoriaethu lles disgyblion, mae arweinwyr hefyd yn ystyried lles staff yn ofalus. Mae deialog reolaidd ac agored yn sicrhau bod staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae arweinwyr yn gweithio'n gynhyrchiol gyda rhieni a'r gymuned. Er enghraifft, mae cyfleoedd gwerthfawr i rieni ymweld â'r ysgol, cyfarfod â staff a dysgu am ei gwaith.

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lawer o agweddau pwysig ar waith yr ysgol fel sicrhau deilliannau cryf ar gyfer disgyblion, sicrhau ethos cadarnhaol o ymddygiad da a chreu diwylliant darllen bywiog.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Nid yw arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Mae diffyg sylweddol yng nghyllideb yr ysgol ac mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r ysgol i roi cynllun adfer ar waith.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025